

## **Wrth eich Gwaith: Rhianta a Chyflogaeth yng Nghymru – Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am yr adroddiad a'r argymhellion sydd wedi cael eu hystyried yn ofalus gan y Pwyllgor, yn ogystal â'r amser a'r ymdrech a roddwyd gan y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau i roi tystiolaeth o ansawdd da i'r Pwyllgor.

Rydym wedi ymrwmo i geisio gwella amodau ar gyfer unigolion a lleihau'r anghydraddoldeb rhywiol o ran gwaith a gofal plant, o fewn cwrpas ei gyfrifoldebau datganoledig. Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi gosod targed mentrus ac uchelgeisiol i Lywodraeth Cymru fod yn arweinydd y byd o ran hawliau menywod a chydraddoldeb rhywiol. Rydym wedi comisiynu adolygiad i gefnogi'r uchelgais hwn. Cafodd Cam 1 yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol ei gefnogi gan Chwarae Teg, a luniodd adroddiad, ynghyd â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, sydd wedi casglu tystiolaeth o Gymru, y DU a gwledydd eraill. Mae'r adroddiadau hyn wedi codi cwestiynau heriol ac wedi cyflwyno argymhellion i'w hystyried ymhellach yng Ngham 2 yr Adolygiad.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad ac yn wirioneddol ystyried yr argymhellion. Mae llawer o'r argymhellion hynny'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r angen i adolygu rheoliadau a threfniadau adrodd Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru. Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, yn ei swydd fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb, sydd â throsolwg o'r adolygiad ac mae wedi nodi ei bod yn disgwyl camau cynnar i wella'r gwaith o adrodd ynghylch y bylchau cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru ac y gwneir hyn o fewn cyd-destun cryfhau rheoliadau'r Ddyletswydd yn gyffredinol. Bydd swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), sef rheoleiddiwr y Ddyletswydd, i ystyried y canlyniadau a threfniadau monitro'r adolygiad. Bydd hyn yn sicrhau bod trefniadau adrodd yn y dyfodol yn gadarn ac yn sicrhau bod y cyrff rhestredig yn cyhoeddi eu data mewn ffyrdd tryloyw, hawdd eu dilyn a hawdd cael gafael arnynt. Bydd hyn yn unol â'n hawydd i hyrwyddo egwyddorion data agored ar draws cyrff cyhoeddus Cymru.

Mae ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru wedi eu nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a daethant i rym ym mis Ebrill 2011. Mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys i bob awdurdod lleol a restrir yn Atodlen 19 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, cyrff addysg, cyrff iechyd a Llywodraeth Cymru ei hun.

Mae'r gofyniadau o dan y dyletswyddau penodol i Gymru yn wahanol i Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) 2017 sy'n gymwys i gyflogwyr preifat a'r sector gwirfoddol ledled Prydain; a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Lleol) 2017 sy'n gymwys i gyrff cyhoeddus yn Lloegr ac yn berthnasol i gyrff cyhoeddus nad ydynt wedi datganol, sy'n gweithredu yng Nghymru a'r Alban.

Ni oedd y llywodraeth gyntaf i gyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb penodol er mwyn i gyrff cyhoeddus ymddwyn yn well a dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd uchod. Mae ein Rheoliadau yn ymwneud ag asesiadau effaith

cydraddoldeb, cyhoeddi ac adolygu Cynlluniau Amcanion Cydraddoldeb a Chydraddoldeb Strategol, ymgysylltu, gwahaniaethau cyflog, caffael, trefniadau adrodd a gwybodaeth am gydraddoldeb a chyflogaeth. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw rheoleiddiwr y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus.

Mae'r Comisiwn yng Nghymru wrthi'n gwneud gwaith monitro ar hyn o bryd, gyda'r nod o ganfod meysydd posibl o ddiffyg cydymffurfio ac archwilio'r gwaith a wneir mewn mannau penodol, gan bob sector, i fodloni gofynion y ddyletswydd gyffredinol i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rhai nad ydynt yn eu rhannu; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng pob sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Bydd gwaith monitro'r Comisiwn yn canfod pa gyrff rhestredig sydd hefyd wedi dewis cyhoeddi data cyflogau yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau) 2017. Nid yw'n ofynnol ar hyd o bryd i gyrff rhestredig sy'n destun Deddf benodol Cymru, i gyhoeddi eu data cyflog sy'n berthnasol i'r rhywiau ar wefan Llywodraeth Cymru, ond mae rhyddid iddynt wneud hynny os ydynt yn dymuno. Mae nifer o'r gyrff rhestredig wedi dewis gwneud hynny'n wirfoddol, gan gynnwys nifer o awdurdodau lleol, prifysgolion a gwasanaethau Tân ac Achub.

Bydd gwaith monitro'r Comisiwn yn cynnwys 79 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru a chaiff ei gynnal rhwng mis Mehefin a diwedd mis Medi. Yn ogystal â meysydd canolbwyntio penodol ar gyfer sectorau gwahanol, caiff yr holl gyrff rhestredig eu monitro ar eu gwaith o ran recriwtio a chyflogi pobl anabl, a gwaith a wneir i gydymffurfio â'r ddyletswydd i leihau'r bwloch rhwng cyflogau.

Dylai'r system adrodd fod yn glir, yn dryloyw a rhoi cyfle i wneud cymariaethau. Mae'r wybodaeth eisoes gan gyrff cyhoeddus rhestredig yng Nghymru – mae'n ofynnol iddynt gasglu a chyhoeddi mwy o wybodaeth, a gwybodaeth fanylach, na'r hyn sy'n ofynnol gan Lywodraeth y DU o gyrff cyhoeddus yn Lloegr.

Mae'r gwaith hwn yn alinio'n gyfan gwbl â *Ffyniant i Bawb – y strategaeth i Gymru*, sy'n ymgorffori ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu cyfle cyfartal i bawb. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â beichiogrwydd a gwahaniaethu ar sail mamolaeth ac anfantais fel rhan o raglen ehangach o waith yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol yn ein cymdeithas.

Mae'n cynnwys yr ymrwymiad i ddarparu 30 awr o addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant gydag arian y llywodraeth i rieni sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 a 4 oed am hyd at 48 wythnos y flwyddyn erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn. Anelir ein Cynnig Gofal Plant (y Cynnig) at rieni sy'n gweithio, a'r bwriad yw cefnogi economi Cymru drwy gynorthwyo rhieni, yn arbennig mamau, i ddychwelyd i'r gwaith neu gynyddu eu horiau o ran cyflogaeth.

Nodir mai gofal plant yw'r rheswm yn aml pam mae rhai rhieni yn gweithio ble y maent, yn gweithio'r oriau y maent, neu nad ydynt yn gweithio o gwbl. Mae cydnabyddiaeth yn tyfu yng Nghymru bod y rhan fwyaf o blant sydd mewn tlodi o ran incwm perthnasol yn byw mewn aelwyd lle mae o leiaf un person yn gweithio. Mae'r dystiolaeth yn glir mai gwaith sy'n talu'n dda yw'r llwybr gorau o dlodi, a'r amddiffyniad gorau yn erbyn tlodi. Bwriad y Cynnig yw cydnabod y pwysau ar rieni sy'n bodloni'r meini prawf, a darparu cefnogaeth ariannol i'w helpu gyda'u costau gofal plant, gan eu galluogi i gael gafael ar fwy o ddewisiadau o ran cyflogaeth.

Bydd y Cynnig ar gael ar draws Cymru gyfan o fis Medi 2020. Cyn hynny, byddwn yn cynnal rhaglen o weithredu cynnar, gan brofi'r Cynnig mewn gwahanol rannau o Gymru er mwyn helpu i ddeall anghenion plant, rhieni a darparwyr. Dechreuodd y gwaith o weithredu'n gynnar ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Ynys Môn a Gwynedd ym mis Medi 2017, gydag ardaloedd eraill yn cyflwyno'r Cynnig o fis Medi 2018. Y rhain yw Ceredigion, Wrecsam, Conwy, Casnewydd, Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen. Mae hyn yn rhan o raglen o barhau i ehangu fel y bydd y Cynnig cynnar ar gael mewn o leiaf ran o bob awdurdod lleol erbyn mis Medi 2019.

Mae'r Cynnig yn rhan o gyfres o raglenni wedi'u hanelu at fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith drwy gefnogi rhieni i gyflogaeth llawn amser a'i gwneud yn haws i rieni gadw gwaith. Mae ein rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn brosiect £13.5 miliwn a gaiff ei ariannu ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru, yn gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r rhaglen hon wedi'i hanelu'n benodol at rieni sy'n ddi-waith ac sy'n nodi mai gofal plant yw'r prif rwystr rhag chwilio am gyfleoedd hyfforddiant neu waith. Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2018, roedd y prosiect wedi ymgysylltu â 2,883 o gyfranogwyr ac wedi cefnogi 896 i mewn i waith. Mae dros 90% o'r cyfranogwyr yn fenywod.

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
1	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i hysbysebu ei holl swyddi fel rhai “hyblyg yn ddiodyn” erbyn 2019-20, neu gyfiawnhau hysbysebu rôl nad yw'n hyblyg. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd annog pob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i wneud yr un peth.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithredu'r trefniadau hyn ar gyfer ei staff ei hun. Byddwn yn ysgrifennu at awdurdodau cyhoeddus Cymru i'w hannog i fabwysiadu arferion tebyg os nad ydynt ar waith ganddynt eisoes.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
2	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn “arwain o'r brig” drwy annog rhannu swydd mewn rolau arweinyddol uwch yn Llywodraeth Cymru.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Fel cyflogwr sy'n anelu at fod yn enghreifftiol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen gwneud mwy er mwyn galluogi ac annog rhannu swydd (a gweithio rhan amser) ar lefelau arweinyddol uwch o fewn y sefydliad. Mae ein Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant 2016 - 2020 yn ymrwmo i ystyried sut y gellir annog gweithwyr rhan amser i geisio am swyddi Band Gweithredol ac Uwch y Gwasanaeth Sifil, gan wneud yn fawr o gyfleoedd rhannu swydd. Cynhaliwyd arolwg o farn Gweision Sifil Uwch ar weithio rhan amser yn y Gwasanaeth Sifil Uwch a llywiodd hyn bapur a gyflwynwyd i'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant. Cytunodd y Grŵp ar y papur a wnaeth 12 o argymhellion ynghylch rhannu swydd a gweithio rhan amser yn y Gwasanaeth Sifil Uwch. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys gwneud y broses o rannu swydd yn haws; canfod diddordeb mewn rhannu swydd yn y Gwasanaeth Sifil Uwch; sicrhau y caiff pob swydd uwch eu hystyried ar gyfer rhannu swydd wrth ei chynllunio, cyn ei hysbysebu a sicrhau ymrwymiad gan arweinyddion uwch. Cynhaliwyd seminar hyfforddi ar gyfer y gwasanaeth sifil uwch ym mis Mai 2017 er mwyn galluogi pobl i glywed gan ddirprwy gyfarwyddwr a oedd yn rhannu swydd Swyddfa'r Cabinet a gofyn unrhyw gwestiynau.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
3	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yr achos dros newid deddfwriaeth fel y gall rolau fel Gweinidogion, penodiadau cyhoeddus a chynghorwyr rannu swydd.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae swyddi Gweinidogion a Chynghorwyr yn rhai etholedig ac iddynt wahanol gyfrifoldebau ac atebolrwydd i bobl a benodir naill ai i swydd neu fel penodiad cyhoeddus.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr achos o blaid newid deddfwriaeth mewn perthynas â Gweinidogion Llywodraeth Cymru ochr yn ochr ag unrhyw ystyriaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran rhannu swydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru ar fin cyflwyno cynigion a fyddai'n hwyluso rhannu swyddi cabinet mewn llywodraeth leol. Mae hyn yn deillio o gais gan lywodraeth leol a bwriadwn adolygu sut y mae hyn yn datblygu cyn ystyried unrhyw gynigion yn y dyfodol o ran rhannu swyddi megis arweinwyr cynghorau, cadeiryddion pwyllgorau neu gynghorwyr yn cael eu hethol ar sail mandad rhannu swydd.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn croesawu ceisiadau gan bartneriaethau rhannu swydd ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Penodwyd partneriaeth rhannu swydd yn ddiweddar i swydd Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
4	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor arbenigol i gyflogwyr drwy Busnes Cymru ynghylch sut i ymdrin yn effeithiol â cheisiadau am drefniadau gweithio hyblyg.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae Busnes Cymru yn rhoi cyngor ynghylch gweithio hyblyg drwy'r llywodraeth Dynol a'r llywodraeth fusnes cyfrifol. Caiff y cyngor ei adolygu a'i adnewyddu os bydd angen, a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r cynghorwyr ynghylch pwysigrwydd darparu'r cyngor hwn drwy'r cymorth a gaiff ei gynnig.</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
		<p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Defnyddir cyllidebau cyfredol y rhaglen i dalu unrhyw gostau ychwanegol.</p>
5	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diweddarau canllawiau recriwtio ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion i gynnwys materion fel gweithio hyblyg, absenoldeb rhiant a rennir a materion beichiogrwydd a mamolaeth. Dylid darparu arweiniad hefyd i dimau arweinyddiaeth uwch ar drin materion beichiogrwydd a mamolaeth.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Cafodd Pennod 9 o'r Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion ei ddiweddarau yn 2012 ac mae'n egluro beth yw rhwymedigaethau cyrff llywodraethu o ran cyflogaeth a Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys cyngor ynghylch beichiogrwydd a materion yn ymwneud â mamolaeth. Mae hefyd yn cyfeirio at gyngor pellach er mwyn sicrhau y caiff ysgolion a chyrff llywodraethu'r wybodaeth ddiweddaraf am hawliau cydraddoldeb. Cyfeiria Pennod 10 at staffio, sy'n cynnwys penodi athrawon, penaethiaid a dirprwy bennaethiaid a chynghor y dylai pob athro a phennaeth fwynhau cydbwysedd rhesymol rhwng bywyd a gwaith.</p> <p>Felly, mae dyletswydd ar lywodraethwyr, o fewn y Rheoliadau Staffio (Rhan 8) i roi sylw i gydbwysedd bywyd a gwaith penaethiaid. Yn y pen draw, mae'n rhaid i awdurdodau lleol, fel cyflogwyr, sicrhau bod telerau ac amodau contractau yn unol â deddfwriaeth ac y caiff cyrff llywodraethu'r cyngor priodol.</p> <p>Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y defnyddir y canllaw hwn i gyfeirio ato ac y dylai adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf. Byddwn yn diwygio ac yn diweddarau'r canllaw cyfan hwn maes o law.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
6	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar y potensial i hysbysebu pob swydd ddysgu (gan gynnwys swyddi uwch) fel rhai "hyblyg yn ddiodyn" fel rhan o'r</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Caiff y cyfrifoldeb dros faterion staffio mewn ysgolion, gan gynnwys hysbysebu swyddi dysgu, eu dyrannu i Gyrff Llywodraethu o dan y Rheoliadau Staffio (Rhan 8). Ni fyddai'n briodol i'r adolygiad o dâl ac amodau athrawon gynnwys y mater hwn sy'n ymwneud â chyflogaeth a sut y mae ysgolion yn ariannu eu hunain, felly bydd yr adolygiad o'r</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
	adolygiad o dâl ac amodau athrawon.	<p>Canllaw i Lywodraethwyr, fel yr ymrwymwyd iddo yn Argymhelliad 5 uchod, yn cynnwys archwilio bod pob swydd ddysgu yn cael ei hysbysebu fel rhai hyblyg yn ddiodyn.</p> <p>Bydd yn hanfodol bod yr adolygiad o dâl ac amodau athrawon yn ystyried yn llawn yr hyblygrwydd sydd ei angen i gynnal yr amrywiaeth o batrymau gwaith sydd ei angen ar ysgolion.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
7	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio taliadau Cyfrifoldeb Addysg a Dysgu i ganiatáu rhannu cyfrifoldebau rhwng dau aelod o staff.	<p><b>Gwrthod</b></p> <p>Er ei bod yn rhesymol i fwy nag un person rannu'r cyfrifoldeb dros ymgymryd â rôl mewn maes gwaith penodol, mae natur tâl ac amodau yn ei gwneud yn ofynnol bod pob agwedd ar daliadau yn seiliedig ar unigolion. Felly ni fyddai'n briodol i faterion, megis lwfansau, gael eu rhannu. Fodd bynnag, bydd yr adolygiad o dâl ac amodau athrawon yn edrych ar alluogi ysgolion i gael digon o hyblygrwydd i roi taliadau priodol i athrawon am unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol y maent yn ymgymryd â hwy yn eu swyddi, waeth beth yw eu patrwm gwaith.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
8	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddileu gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth yn y sectorau sylfaen a thematig fel blaenoriaeth. Er mwyn monitro hyn, dylai gweithwyr mewn busnesau sy'n cael	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Yn dilyn gweithredu'r Contract Economaidd, mae'n rhaid i bob busnes sydd am gael cefnogaeth ariannol uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ddangos sut y maent yn bodloni pob un o'r amodau yn y Contract Economaidd, gan gynnwys Gwaith Teg. Mae hyn yn golygu na fydd busnesau sy'n ymgymryd ag arferion sy'n gwahaniaethu neu driniaeth annheg yn gallu bod yn gymwys i gael cymorth ariannol uniongyrchol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Partneriaid Cymdeithasol (TUC Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach, y CBI a Commerce Cymru) i ddeall effaith y Contract Economaidd ar</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
	cymorth gan y Llywodraeth gael eu harolygu ar faterion fel gwahaniaethu a thriniaeth annheg.	<p>gyflogeion a busnesau.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b></p> <p>Dim.</p>
9	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod busnesau sy'n ceisio cymorth ariannol yn cynnig gweithio hyblyg, dangos camau i leihau'r baich cyflog rhwng y rhywiau ac yn adrodd ar gyfraddau cadw yn sgil mamolaeth, drwy gynnwys y rhain fel meini prawf allweddol yn y Contract Economaidd.	<p><b>Derbyn mewn Egwyddor</b></p> <p>O bryd i'w gilydd, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Contract Economaidd gyda phartneriaid cymdeithasol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben o ran targedu ein hamcan polisi o helpu i hyrwyddo arferion busnes a chyflogaeth cyfrifol i gyflawni buddsoddiad cyhoeddus gyda diben cymdeithasol. Ar ben hynny, rydym wedi ymrwymo i ailedrych ar ymrwymiad Gwaith Teg y Contract Economaidd unwaith y bydd y Comisiwn Gwaith Teg wedi cyflwyno ei adroddiad.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b></p> <p>Dim.</p>
10	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r trydydd sector sy'n cael cymorth ariannol gynnig gweithio hyblyg, dangos camau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac adrodd ar gyfraddau cadw yn sgil mamolaeth, drwy gynnwys y rhain fel meini prawf allweddol mewn contractau cyllido.	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae Cyfnod 1 o'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, a gyhoeddodd y Prif Weinidog ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, wedi cael ei gwblhau, gydag adroddiadau gan Chwarae Teg a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ar 10 Gorffennaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu'r adroddiad ac mae'n ystyried yr argymhellion o ddifrif. Mae llawer ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n uniongyrchol â'r angen i adolygu rheoliadau Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru a chyflwyno adroddiad ar y trefniadau yng Nghymru. Mae Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, sef Julie James, yn ei swydd fel 'Gweinidog Cydraddoldeb' gyda throsolwg o'r Adolygiad, wedi nodi ei bod yn disgwyl camau cynnar i wella'r broses o adrodd ynghylch bylchau cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru.</p> <p>Mae llawer ffordd y caiff sefydliadau'r trydydd sector afael ar gymorth ariannol gan</p>



Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
		<p>Lywodraeth Cymru. Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn nodi'r egwyddorion allweddol a fydd yn ganolog i arian Llywodraeth Cymru ar gyfer y Trydydd Sector a'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei ddisgwyl yn ôl gan y Trydydd Sector (drwy grantiau a chaffael). Bydd holl arian Llywodraeth Cymru ar gyfer y Trydydd Sector yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Llywodraeth a blaenoriaethau Gweinidogol. Mae'n rhaid i holl Adrannau Llywodraeth Cymru gydymffurfio â'r Cod hwn wrth ariannu'r Trydydd Sector. Mae'r Cod Ymarfer: Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi yn helpu i sicrhau y caiff gweithwyr yn ein cadwyni cyflenwi eu cyflogi'n deg. Mae'r cod hwn yn ymrwymo sefydliadau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector i gyfres o gamau sy'n mynd i'r afael ag arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac annheg. Disgwylir i sefydliadau a gaiff arian gan Lywodraeth Cymru, naill ai'n uniongyrchol neu drwy grantiau neu gontractau, ymrwymo i'r cod.</p> <p>Byddwn yn ystyried sut y gellir defnyddio ein cefnogaeth i'r Trydydd Sector drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru i ymateb yn gadarnhaol i'r agenda bwysig hon, a helpu sefydliadau'r trydydd sector i hyrwyddo arferion cyflogaeth moesegol.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
11	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ddarparu gweithio hyblyg, dangos camau i leihau bylchau cyflog rhwng y rhywiau, ac yn adrodd ar gyfraddau cadw ar ôl mamolaeth fel rhan o drefniadau caffael.	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn lle byddai gofyniad o'r fath yn berthnasol i'r contract o dan sylw. Byddai angen gwaith pellach i ganfod y ffyrdd mwyaf effeithiol lle gallai prosesau caffael gael eu defnyddio i gyflawni'r amcanion a nodwyd yn yr argymhelliad hwn.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
12	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn	<b>Derbyn mewn Egwyddor</b>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
	<p>cynnwys elfen benodol ynghylch rhywedd yn y diffiniad o “waith teg”. Dylai'r diffiniad a ddefnyddir gan y Contract Economaidd sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddarparu yn benodol i sefydliadau sy'n glynu wrth gyfleoedd cyfartal a strwythurau gweithle sy'n galluogi menywod a dynion i symud ymlaen yn eu gyrfaedd.</p>	<p>Mae'r Contract Economaidd yn nodi'n glir bod ei ddiffiniad o Waith Teg yn un dros dro tan yr argymhellion y bydd y Comisiwn Gwaith Teg yn ei roi i Weinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddiwygio'r Contract Economaidd yn dilyn gwaith y Comisiwn Gwaith Teg, a fydd yn ystyried cydraddoldeb rhwng y rhywiau wrth ystyried Gwaith Teg. Ni fyddai'n briodol i ni ragddyfalu gwaith y Comisiwn Gwaith Teg drwy wneud newidiadau i elfen Gwaith Teg y Contract Economaidd, yn arbennig o gofio bod y safbwynt dros dro wedi cael ei lywio gan Bartneriaid Cymdeithasol ac wedi cael cytundeb y Partneriaid Cymdeithasol hynny.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
13	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn casglu data ar gyfraddau cyflogaeth a chadw mamau fel rhan o'r cynlluniau peilot Cynnig Gofal Plant newydd i lywio'r gwerthusiad annibynnol o'r cynlluniau peilot hynny.</p>	<p><b>Derbyn mewn Egwyddor</b></p> <p>Mae'r gwerthusiad o ran gweithrediad cynnar y rhaglen mewn cysylltiad â Chynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru yn gyfyngedig o ran cwrpas ar hyn o bryd, gyda ffocws ar y broses ymgeisio, cyfathrebu, a chael gafael ar ofal plant addas, alinio'r agweddau addysg a gofal plant a chynaliadwyedd y trefniadau talu.</p> <p>O ran natur y Cynnig, mae'n rhaid i bob rhiant fod mewn gwaith er mwyn cael eu hystyried yn gymwys, oni bai eu bod yn gymwys i un o'r eithriadau sydd ar gael i aelwydydd dau riant. Mae'n rhaid i'r rhieni ail-gadarnhau eu cymhwysedd ar adegau penodol drwy gydol y flwyddyn, sy'n caniatáu cipolwg cyfyngedig o ran a ydynt yn parhau mewn cyflogaeth ai peidio. Mae'r gwerthusiad hefyd yn cynnwys arolwg o rieni sy'n defnyddio'r Cynnig, yn holi cwestiynau ynghylch agweddau at waith ac unrhyw effaith ar eu statws cyflogaeth neu ddewisiadau o ran cyflogaeth. Ond, ni chaiff data ei gasglu ar hyn o bryd ynghylch a yw rhieni yn aros yn yr un swydd drwy'r cyfnod ai peidio, neu'n newid swyddi.</p> <p>Mae'n gynnar yn y proses o gynllunio ar gyfer y gwerthusiad o'r Cynnig ar ôl 2020. Bydd y gwerthusiad mwy hirdymor yn ystyried sut mae'r Cynnig yn cefnogi cyflogaeth rhieni a</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
		<p>dewisiadau cyflogaeth, drwy ddadansoddi gwybodaeth rheoli a chynnal gwaith ymchwil cynnar gyda rhieni.</p> <p>Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod cael gafael ar gofnodion Llywodraeth y DU o ran cyflogaeth. Rydym wedi gwneud trefniadau gyda chronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) i gael gafael ar seilwaith diogel ar gyfer cysylltu data personol at ddibenion ymchwil mewn ffordd ddiennw a moesegol. Ein bwriad yw defnyddio'r seilwaith hwn i ddadansoddi llwybrau rhieni i waith, a chynnydd o ran gyrfa dros gyfnod o amser, Mae wedi bod yn anodd cael gafael ar gofnodion yr Adran Gwaith a Phensiynau / Cyllid a Thollau EM yn y gorffennol, ond rydym yn dal i gredu mai dyma'r ffordd orau gan y bydd yn darparu data cwbl ddibynadwy, dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o gasglu data, ac nid yw'r rhoi dim pwysau ychwanegol ar rieni.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
14	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau pellach y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r angen am ofal plant i rai rhwng un a thair oed.	<p><b>Gwrthod</b></p> <p>Yn ystod y tymor hwn, mae Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar ddarparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'i ariannu gan y Llywodraeth ar gyfer rhieni plant tair a phedair oed, sy'n gweithio, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.</p> <p>Mae ein Cynnig Gofal Plant yn un o gyfres o bolisiâu - gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a chyflwyno Plant yn Gyntaf - sy'n cael ei ddatblygu gennym ar hyn o bryd i gefnogi cymunedau ac adeiladu gwydnwch. Mae mathau eraill o gymorth ar gael hefyd er mwyn helpu rhieni gyda chostau gofal plant, megis Credydau Treth a Chredyd Cynhwysol ar gyfer gofal plant, a'r Cynllun Gofal Plant Di-dreth newydd, sy'n rhoi cymorth i rieni sy'n gweithio gyda chostau gofal plant.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
15	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ailasesu'r Cynnig. Dylai'r ailasesiad hwn ystyried y gwerthusiad, ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ymchwil rhyglwadol a'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r ymchwiliad hwn.</p>	<p><b>Gwrthod</b></p> <p>Roedd y Cynnig Gofal Plant i Gymru yn ymrwymiad maniffesto craidd i Lafur Cymru ac mae'n rhan hanfodol o'n Rhaglen Lywodraethu, <i>Symud Cymru Ymlaen</i>. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r Cynnig yn ystod tymor y Cynulliad hwn.</p> <p>Er ein bod yn deall y ddadl ynghylch ffiniau'r Cynnig, yn arbennig y rhai sy'n dadlau y dylai gael ei anelu at rieni sydd â phlant iau, mae'n bwysig peidio â bychanu'r cam mawr y mae'r Cynnig hwn yn ei awgrymu a'r croeso y mae wedi ei gael.</p> <p>Dylem bob amser fod yn agored i syniadau a'r hyn a ddywed dystiolaeth wrthym o ran lle y dylid anelu nesaf. Yn hytrach nag adolygu ffiniau'r Cynnig hwn ar hyn o bryd, byddwn yn edrych yn ofalus ar yr hyn y mae'r gwaith ymchwil a'r dystiolaeth yn dweud wrthym am y camau ychwanegol y gallem eu cymryd i gefnogi grwpiau eraill o rieni gyda'u costau gofal plant yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys dysgu o'r gwerthusiad o'n rhaglen gweithredu cynnar, gwersi a ddysgwyd o ddarparu Dechrau'n Deg a chanfyddiadau'r adolygiad hwn, yn ogystal â gwaith ymchwil a gomisiynwyd ar wahân.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
16	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu argaeledd cyfredol a chost gofal cofleidiol (hynny yw, gofal cyn ar ôl ysgol) i sefydlu lle mae bylchau daearyddol, costau uchel a rhwystrau eraill. Dylai'r adolygiad gynnwys archwiliad o'r potensial i ddarparu gofal o'r fath mewn ysgolion.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Bob tair blynedd, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant er mwyn canfod bylchau mewn gofal plant. Mae hyn yn llywio cynlluniau ar lefel leol. Cyhoeddwyd yr aseidiadau mwyaf diweddar yn 2017. Ochr yn ochr â'r rhain, cynhaliwyd aseiad cychwynnol lefel uchel o gapasiti o fewn y sector gofal plant gan WISERD a gafodd ei gyhoeddi ym mis Hydref 2017. Bellach, mae angen rhagor o waith i adeiladu ar y model capasiti a gynhaliwyd gan WISERD a'r wybodaeth sydd ar gael yn yr Aseidiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant.</p> <p>Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru aseiad economaidd o'r sector</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
		<p>gofal plant a gynhaliwyd gan Alma Economics. Rydym wrthi'n ystyried gwaith ymchwil pellach i gapasiti a chynaliadwyedd y sector gofal plant yn seiliedig ar argymhellion Alma Economics. Mae hyn yn cydfynd â'r gwaith o adolygu llwybrau cymwysterau a gyrfa newydd o fewn ein <i>Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar</i>, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017.</p> <p>Mae cyllid cyfalaf o £60 miliwn dros dair blynedd (2018-21) yn cael ei roi i Awdurdodau Lleol a darparwyr eraill gofal plant er mwyn adnewyddu a/neu ddatblygu lleoliadau er mwyn darparu elfen gofal plant y Cynnig 30 awr. Bydd hyn yn cynnwys datblygu gofal plant cofleidiol er mwyn cynnig darpariaeth llyfn ar gyfer rhieni sy'n gweithio. Rhaid i bob cais gael ei gyflwyno drwy'r Awdurdod Lleol a rhaid iddynt gael eu cyflwyno erbyn 30 Medi 2018.</p> <p>Byddwn hefyd yn adolygu telerau'r (Gorchymyn) Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd 2010, fel y'i diwygiwyd yn 2016. Bydd hyn yn cynnwys mynd ati eto i ystyreid rôl ysgolion o ran daparu gofal plant.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b></p> <p>Mae £60 miliwn o gyfalaf wedi cael ei roi eisoes tuag at ddatblygu seilwaith yn gysylltiedig â'r Cynnig Gofal Plant ac efallai y bydd rhai goblygiadau ariannol eraill yn gysylltiedig â datblygu gofal cofleidiol. Nid yw'n bosibl penderfynu ar gostau llawn y rhan nes y bydd yr holl opsiynau wedi cael eu harchwilio a'u cyflwyno i Weinidogion.</p>
17	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwella ymwybyddiaeth o brosiect PaCE.	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Caiff deunydd hysbysrwydd PaCE ei ddsbarthu ar draws amrywiaeth eang o sefydliadau. Ond, cydnabyddir y gallai PaCE gael ei hyrwyddo'n ehangach, er enghraifft drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Caiff cynllun cyfathrebu ei ddatblygu a fydd yn nodi sut rydym yn bwriadu cynyddu ymwybyddiaeth o PaCE drwy gyhoeddusrwydd cenedlaethol a lleol. Caiff hyn ei gwblhau erbyn 30 Medi 2018.</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
		<p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Defnyddir cyllidebau cyfredol y rhaglen i dalu unrhyw gostau ychwanegol.</p>
18	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro beth yw'r union gymhwysra ar gyfer elfen gofal plant y rhaglen mewn deunyddiau hyrwyddo, a sut mae'n cysylltu â'r Cynnig Gofal Plant.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Caiff dull ar y cyd ei fabwysiadu rhwng timau polisi PaCE a'r Cynnig Gofal Plant i ddylunio a dosbarthu deunyddiau hysbysrwydd sy'n nodi'n glir beth yw'r cysylltiad rhwng y ddwy raglen. Caiff hyn ei gwblhau erbyn 30 Rhagfyr 2018.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Defnyddir cyllidebau cyfredol y rhaglen i dalu unrhyw gostau ychwanegol ar y cyd.</p>
19	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad o effeithiolrwydd prosiect PaCE o ran helpu rhieni i gael mynediad at ofal plant wrth chiwlio am swydd, a sut mae'r argymhellion a wnaed yng ngwerthusiad 2016 wedi cael sylw.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae gwerthusiad i ystyried effaith PaCE wedi cael ei gomisiynu a disgwylir i'r adroddiad cyntaf gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2018, a fydd yn cynnwys adborth gan rieni ynghylch sut roedd PaCE wedi eu cefnogi i mewn i waith, a sut y cafodd gofal plant ei drefnu i ddiwallu eu hanghenion.</p> <p>Cafodd y 13 o argymhellion a wnaeth yr adroddiad gwerthuso proses PaCE yn 2016 eu derbyn gan Lywodraeth Cymru, ac mae crynodeb o'r argymhellion a'r camau gweithredu i'w cael isod:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Llunio cytundeb ffurfiol, megis memorandwm cyd-ddealltwriaeth, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau partneriaid allweddol (yn arbennig awdurdodau lleol) sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu PaCE. Cam gweithredu: Cafodd memorandwm cyd-ddealltwriaeth ei lunio a'i gynnig i awdurdodau lleol.</li> <li>2. Darparu proses gynefino ar sail prosiect i bob Cynghorydd PaCE. Cam gweithredu: mae pob cynghorydd yn dilyn proses gynefino sydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer PaCE</li> <li>3. Llunio taflen cwestiynau cyffredin i'w defnyddio fel dogfen ymarferol drwy gydol gweddill y prosiect. Cam gweithredu: Cwblhawyd ac mae bellach yn ddogfen barhaol</li> </ol>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
		<p>4. Ystyried cyflwyno system cyfaill/mentor er mwyn galluogi Cynghorwyr PaCE i rannu dysgu gyda'i gilydd a chodi ymwybyddiaeth o'r hyfforddiant a gaiff ei gynnig i staff yn lleol. Cam gweithredu: Dyrennir cynghorydd arall i bob cynghorydd er mwyn helpu gyda'r cynefino, ac mae rhwydwaith cynghorwyr i rannu arfer gorau ar draws Cymru</p> <p>5. Ymgymryd â gwaith marchnata a hyrwyddo gan ddefnyddio deunyddiau clir a chryno, targedu darparwyr a chyfranogwyr gwasanaeth posibl, i adlewyrchu'r ffaith bod PaCE bellach yn gweithredu'n llawn. Cam gweithredu: Mae gan PaCE gyfres lawn o ddeunyddiau marchnata, gan gynnwys taflenni, cardiau busnes, cortyn <i>lanyard</i>, bathodynau enw, baneri a phosteri.</p> <p>6. Cadw llygad barcud ar lwybrau cyfeirio er mwyn canfod tueddiadau a phatrymau cyfeirio. Cam gweithredu: monitro'r broses sydd yn ei lle.</p> <p>7. Adeiladu ar lwyddiant y rhaglen beilot ESICC, archwilio (a rhannu llwyddiannau) dulliau ychwanegol i ymgysylltu canolfannau Dechrau'n Deg a chanolfannau teuluol eraill er mwyn cynyddu amrywiaeth y llwybrau cyfeirio/ymgysylltu ar gyfer y prosiect PaCE. Cam gweithredu: Mae cynghorwyr PaCE yn cydweithio'n agos â gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.</p> <p>8. Pan fo tystiolaeth ei bod yn fwy heriol darparu gwasanaeth mewn ardaloedd mwy gwledig, archwilio drwy drafodaeth â grwpiau gwledig allweddol, gan gynnwys y Grwpiau Gweithredu Lleol yn darparu'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Cam gweithredu: Mae PaCE yn parhau i gysylltu â darparwyr eraill ledled Cymru</p> <p>9. Cynnal yr hyblygrwydd a roddir i Gynghorwyr PaCE o ran darparu eu gwasanaethau. Cam gweithredu: Cynhaliwyd yr hyblygrwydd</p> <p>10. Cyflwyno dulliau monitro cadarn o deithiau cwsmeriaid a chanlyniadau cyflogaeth i ganfod unrhyw batrymau lleol o ran darparu gwasanaeth a chyflawni canlyniadau. Cam gweithredu: Mae cynghorwyr PaCE yn cadw cofnodion o daith y cwsmer a chaiff canlyniadau cyflogaeth eu monitro i ganfod tueddiadau ac arfer gorau.</p> <p>11. Comisiynu gwerthusiad cyfunol cyn gynted â'i bod yn rhesymol er mwyn canfod taith cyfranogwyr a'r pellter sydd wedi'i deithio a rhoi argymhellion amserol i PaCE. Cam gweithredu: Comisiynwyd gwerthusiad</p> <p>12. Ymgorffori enghreifftiau o dystiolaeth gymwys / anghymwys mewn dogfennau canllaw mewnol/cwestiynau cyffredin. Cam gweithredu: Mae canllaw gweithredu wedi cael ei ddiweddarau</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
		<p>13. Dylai proffil o'r prosiect gael ei adolygu ymhen chwe mis (pan fydd y prosiect wedi bod yn gweithredu'n llawn) i ganfod a oes angen ailbroffilio'r targedau. Cam gweithredu: cwblhawyd</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Defnyddir cyllidebau cyfredol y rhaglen i dalu unrhyw gostau ychwanegol.</p>
20	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i barhau â'r prosiect PaCE y tu hwnt i 2020 os yw'r gwerthusiad newydd yn dangos bod y prosiect yn effeithiol wrth helpu rhieni i mewn i waith, neu os nad yw'n parhau, nodi pa gymorth gofal plant fydd ar gael i rieni mewn addysg a hyfforddiant.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae trafodaethau gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ynghylch ymestyn y prosiect PaCE y tu hwnt i 2020 a bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn rhan o'r ystyriaeth honno. Rhoddir cyngor i Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn yr hydref.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Byddai angen arian cyfatebol pe bai'r prosiect PaCE yn cael ei ymestyn y tu hwnt i 2020. Mae cyllidebau dangosol yn eu lle ar gyfer 2019-20 ond byddai unrhyw gyllid y tu hwnt i 2020 angen bod yn rhan o'r adolygiad o wariant ac unrhyw drafodaeth am gyllidebau'r dyfodol.</p>
21	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data am y rhai sy'n cymryd absenoldeb rhiant a rennir yn y sector cyhoeddus (fel rhan o ddyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus yng Nghymru).</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Bydd Gweinidogion yn cael cyngor ynghylch newidiadau i reoliadau dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus yng Nghymru, a threfniadau adrodd, a bydd angen ystyriaeth fanwl o'r rhain er mwyn penderfynu ar y camau nesaf. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r data cyflogaeth y mae'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus eu casglu a'u cyhoeddi. Yn unol ag Argymhelliad 27, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd lleihau baich trefniadau adrodd ar gyfer cyrff cyhoeddus. Ond, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i sicrhau bod gofynion data cyflogaeth dyletswyddau Cymru'n bodloni amcanion y ddeddf hon.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Nid yw'n bosibl penderfynu ar oblygiadau costau hyn nes y cynhelir trafodaethau</p>



Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
		<p>pellach. Rhagwelir y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau cyfredol ac o fewn adnodd sy'n bodoli eisoes. Tynnir sylw Gweinidog perthnasol Cymru cyn gynted â phosibl at unrhyw gostau neu adnoddau ychwanegol, unwaith y bydd cwmpas y gwaith wedi cael ei gadarnhau.</p>
22	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys rolau'r rhyweddau a rhianta yn yr addysg rhyw a pherthnasoedd newydd.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae <i>Dyfodol Llwyddiannus</i> yn rhagweld dull newydd o ddatblygu'r cwricwlwm. Caiff dyluniad y cwricwlwm newydd ei ddatblygu gan rwydwaith o Ysgolion Arloesi, yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru, Addysg Uwch, busnesau a phartneriaid allweddol eraill. Felly, caiff unrhyw benderfyniadau ynghylch datblygu cynnwys y cwricwlwm eu gwneud mewn partneriaeth â'r ysgolion arloesi. Mae pob maes Dysgu a Phrofiad (grwpiau maes wedi cael eu cefnogi gan yr Athro Emma Renold, cadeirydd panel arbenigol addysg rhyw a pherthnasoedd, i lywio'r ffordd y gallant gyfrannu at Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.</p> <p>Bydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn rhoi dealltwriaeth gyfannol, lyfn a phriodol i oedran y dysgwyr o'r hyn yw perthynas iach (megis teulu, ffrindiau ac yn y pen draw bartneriaid rhamantus) a'r dylanwadau cymdeithasol a diwylliannol a all effeithio ar sut y maent yn creu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol.</p> <p>O fewn Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles y cwricwlwm newydd, dywed yr Athro Graham Donaldson y bydd y maes hwn yn defnyddio pynciau a themâu megis rhianta a dysgu sy'n berthnasol i waith. Felly, mae'r arloeswyr yn gweithio i sicrhau bod rhianta yn ganolog yn y Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd y maes, hefyd, yn cefnogi dysgwyr i gydnabod y gwahaniaethau mewn eraill a chydabod ac ymateb yn feirniadol i amrywiaeth o agweddau arferol a gwerthoedd a gyflwynir sy'n dylanwadu ar bwy ydynt, eu hiechyd a'u lles a byddai hyn yn cynnwys rolau'r rhyweddau.</p> <p>Wrth nodi cynnwys y cwricwlwm, mae <i>Dyfodol Llwyddiannus</i> yn egluro bod lefel uchel o ragnodi a manylder ar lefel genedlaethol yn rhwystro llif a chynnydd o ran dysg a chynnydd plant a phobl ifanc. Felly, mae angen i ni sicrhau nad yw'r cwricwlwm newydd</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
		<p>yn darparu rhestr gynhwysfawr o gynnwys manwl a fyddai'n mynd yn gymhleth ac yn orlawn yn gyflym. Mae'n rhaid i'r cwricwlwm ganiatáu hyblygrwydd i bobl broffesiynol ddewis y cynnwys penodol sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr yn eu cynnwys penodol. Yn yr un modd, dylai'r hyblygrwydd hwn ganiatáu annibyniaeth i'r bobl broffesiynol ystyried materion fel y mae anghenion eu dysgwyr yn galw.</p> <p>Bydd y Maes Dysgu a Phrofiad yn cefnogi dysgu o amgylch rolau rhianta a rhyweddau i gynnal yr argymhelliad hwn.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
23	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys hyfforddiant recriwtio niwtral o ran rhywedd (ymdrin â materion fel rhagfarn ddiarwybod fel rhan o gymorth Busnes Cymru, gan gynnwys enghreifftiau arferion da fel gweithdrefn recriwtio dall GoCompare, a gwaith Ford yn fetio iaith hysbysebion swyddi.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae Busnes Cymru yn darparu cyngor ar arferion recriwtio gorau drwy'r Llif Adnoddau Dynol a'r Llif cyngor ar fusnes cyfrifol. Caiff cyngor ei adolygu a'i adnewyddu os bydd angen, a rhoddir canllawiau i gynghorwyr ynghylch recriwtio niwtral o ran rhywedd, gan gynnwys rhagfarn ddiarwybod.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Defnyddir cyllidebau cyfredol y rhaglen i dalu unrhyw gostau ychwanegol</p>
24	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru i gynnwys cyfraddau cadw ar ôl mamolaeth fel rhan o'r data cyflogaeth a gesglir o dan reoliad 9 <i>Rheoliadau</i></p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Caiff y Gweinidogion gyngor ynghylch newidiadau i reoliadau dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru a bydd angen trefniadau adrodd ac ystyriaeth fanwl ohoni mewn cysylltiad â'r cynnig hwn. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r data cyflogaeth y mae angen i gyrrff cyhoeddus eu casglu a'u cyhoeddi. Yn unol ag Argymhelliad 27, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pa mor bwysig yw lleihau'r baich o ran trefniadau adrodd ar gyfer cyrff cyhoeddus. Ond, mae'n rhaid cydbwysu hyn â'r</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
	<p><i>Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.</i></p>	<p>angen i sicrhau bod gofynion data cyflogaeth dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru yn bodloni amcanion y ddeddfwriaeth hon.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b></p> <p>Nid yw'n bosibl penderfynu ar oblygiadau costau hyn nes y cynhelir trafodaethau pellach. Rhagwelir y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau cyfredol ac o fewn adnodd sy'n bodoli eisoes. Tynnir sylw'r Gweinidog perthnasol Cymru cyn gynted â phosibl at unrhyw gostau neu adnoddau ychwanegol, unwaith y bydd cwmpas y gwaith wedi cael ei gadarnhau.</p>
25	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data cyflogaeth sy'n ofynnol yn unol â dyletswyddau sector cyhoeddus Cymru mewn un lleoliad ar wefan Llywodraeth Cymru, mewn fformat sy'n ei gwneud yn bosibl dadansoddi'r data yn rhwydd.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn orfodol i gyrff cyhoeddus fel cyflogwyr eu hunain felly mae'n bwysig eu bod yn parhau i gadw cyfrifoldeb dros gyhoeddi eu data eu hunain ar y ddyletswydd.</p> <p>Cytuna Llywodraeth Cymru ei bod yn bwysig y caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi mewn ffordd sy'n agored, yn dryloyw ac yn hawdd cael gafael arni. Cytunwn hefyd y byddai'n ddefnyddiol i'r dinesydd a phobl eraill sydd â diddordeb allu cael gafael ar y wybodaeth hon o un lleoliad.</p> <p>Yn unol â'r uchelgais i annog mwy o ddefnydd o ddata agored ar draws y sector cyhoeddus (fel y cytunwyd yn nadi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ddata Agored ym mis Medi 2017), hoffem annog cyrff cyhoeddus i gyhoeddi'r data hwn yn agored mewn ffurfiau hygyrch y gall Llywodraeth Cymru, wedyn, eu casglu a'u cyflwyno mewn un lleoliad. Byddai gwneud fel arall yn ychwanegu baich ychwanegol ar gyrff cyhoeddus a'r galw am broses ganolog, ddrud o gasglu data.</p> <p>Mae hyn yn ddull rydym eisoes wedi dechrau ei fabwysiadu drwy'r gwaith ar ddata cyflogaeth y sector cyhoeddus mewn partneriaeth â Data Cymru ar ran awdurdodau lleol, ac yn dymuno ei ymestyn i gynnwys gwybodaeth dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
		<p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b></p> <p>Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r argymhelliad hwn pe bai'r dull uchod y n cael ei fabwysiadu. Bydd cost ychwanegol i gyrrff cyhoeddus o ran cyhoeddi eu data mewn ffurf safonol ac agored, er bod hyn yn lle costau posibl darparu'r wybodaeth i Lywodraeth Cymru ar ffurf a gytunir arni.</p>
26	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn casglu a chyhoeddi data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus Cymru ym mhorth Llywodraeth y Deyrnas Unedig.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip wedi egluro, mewn cysylltiad â'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, y cymerir camau cynnal yn unol â'r argymhelliad hwn.</p> <p>Yn ogystal â'r ddyletswydd i gael amcan i fynd i'r afael â gwahaniaeth o ran cyflogaeth neu dâl, mae'n ofynnol i bob cyflogwr y sector cyhoeddus yng Nghymru gyflwyno adroddiad blynyddol ar fylchau tâl rhwng y rhywiau ac, hefyd, ar y dosbarthiad gwahanol o ddynion a menywod rhwng y graddau, swyddi, patrymau gwaith (amser llawn a rhan amser) mathau o gontractau (parhaol, dros dro/penodol, achlysurol) sy'n cynnal bylchau tâl. Naill ai mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n canfod gwahaniaeth tâl rhwng y rhywiau bennu amcan cydraddoldeb tâl rhwng y rhywiau i fynd i'r afael ag achos neu achosion y bwlch neu esbonio pam nad ydynt wedi gwneud hynny.</p> <p>O ran trefniadau adrodd, a gan gyfeirio at yr ymateb i Argymhelliad 25 uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i annog cyrff cyhoeddus i gyhoeddi'r data hyn mewn ffordd agored a hawdd cael gafael arnynt. Byddwn hefyd yn ystyried ymhellach ai'r ffordd orau o gyhoeddi data bwlch tâl rhwng y rhywiau yng Nghymru yw ar borth Llywodraeth y DU.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b></p> <p>Nid yw'n bosibl nodi beth fydd goblygiadau costau hyn nes y cynhelir rhagor o drafodaethau. Rhagwelir y defnyddir cyllidebau cyfredol o fewn adnoddau cyfredol i dalu unrhyw gostau ychwanegol. Tynnir sylw Gweinidog perthnasol Cymru at unrhyw gostau neu adnoddau ychwanegol unwaith y bydd cwmpas y gwaith wedi'i gadarnhau.</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
27	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mireinio'r data cyflogaeth sy'n ofynnol yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus Cymru, gyda'r nod o leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd lleihau'r baich o ran trefniadau adrodd ar gyfer cyrff cyhoeddus, er mwyn osgoi gwastraffu arian cyhoeddus ac er mwyn sicrhau'r posibilrwydd o gydymffurfio'n llawn â rheoliadau. Caiff y Gweinidogion gyngor ynghylch newidiadau i'r rheoliadau a threfniadau adrodd cysylltiedig. Bydd hyn, yn benodol, yn cynnwys ystyried y berthynas rhwng dyletswydd cyfrifoldeb y sector cyhoeddus a'r dyletswyddau a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b></p> <p>Nid yw'n bosibl nodi beth fydd goblygiadau costau hyn nes y cynhelir rhagor o drafodaethau. Rhagwelir y defnyddir cyllidebau cyfredol o fewn adnoddau cyfredol i dalu unrhyw gostau ychwanegol. Tynnir sylw Gweinidog perthnasol Cymru at unrhyw gostau neu adnoddau ychwanegol unwaith y bydd cwmpas y gwaith wedi'i gadarnhau.</p>
28	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r ddarpariaeth o gyngor arbenigol ar faterion beichiogrwydd, mamolaeth a chyflogaeth, naill ai drwy wella'r gwasanaethau cynghori presennol neu drwy sefydlu gwasanaeth cynghori newydd i Gymru os na all gwasanaethau sy'n bodoli'n barod ddarparu'r cyngor arbenigol angenrheidiol.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Mae Busnes Cymru yn darparu cyngor ar faterion yn ymwneud â beichiogrwydd, mamolaeth a chyflogaeth drwy'r Llif Adnoddau Dynol a'r Llif cyngor ar fusnes cyfrifol. Caiff y cyngor ei adolygu a'i adnewyddu os bydd angen, a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r cynghorwyr ynghylch pwysigrwydd darparu'r cyngor hwn drwy'r gefnogaeth a gaiff ei chynnig.</p> <p>Bydd ein Comisiwn Gwaith Teg yn ystyried pa ffordd fyddai orau i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r hyn sydd ar gael i ni i lywio'r gwaith hwn yng Nghymru. Byddwn yn ystyried darparu gwasanaethau cynghori'n ymwneud â chyflogaeth yng Nghymru ar ôl i'r Comisiwn gyflwyno ei adroddiad ac yn dibynnu ar ei ganfyddiadau.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b></p> <p>Defnyddir cyllidebau cyfredol y rhaglen i dalu unrhyw gostau ychwanegol.</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
29	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi ffyrdd o ddarparu gwybodaeth am hawliau cyflogaeth i fenywod yn gynnar yn eu beichiogrwydd, fel atgyfeiriadau at wasanaethau cynghori arbenigol yn ystod apwyntiadau iechyd.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Ar hyn o bryd, caiff menywod beichiog wybodaeth sylfaenol am gyflogaeth drwy <i>Naw Mis a Mwy</i>, sef llyfr a roddir i bob menyw yn gynnar yn ei beichiogrwydd, gan roi cyngor ar faterion y gallent fod angen gwybodaeth amdanynt. Ar ben hyn, rhoddir manylion cyswllt iddynt ar gyfer y gwasanaeth cyngor ariannol, sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol. Byddai disgwyl i bob cyflogwr ddarparu gwybodaeth am hawliau cyflogaeth hefyd ac asesiadau o les a ffitrwydd i weithio mewn beichiogrwydd.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
30	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cydgrynhoi gwybodaeth, ffynonellau cyngor, hyfforddiant, ac arfer da o ran materion beichiogrwydd a mamolaeth i gyflogwyr mewn un lleoliad, a darparu gwybodaeth a chynghor wedi eu teilwra ar gyfer busnesau bach a chanolig.</p>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Caiff cyngor, gwybodaeth, hyfforddiant ac arfer da yn ymwneud â beichiogrwydd a materion mamolaeth ar gyfer cyflogwyr eu darparu gan Busnes Cymru ac maent ar gael ar wefan Busnes Cymru. Caiff y cyngor ei adolygu a'i adnewyddu os bydd angen, a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r cynghorwyr ynghylch pwysigrwydd darparu'r cyngor hwn drwy'r gefnogaeth a gaiff ei chynnig.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Defnyddir cyllidebau cyfredol y rhaglen i dalu unrhyw gostau ychwanegol.</p>
31	<p>Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn gwella'r cyngor a'r wybodaeth sydd ar gael drwy Gyrfa Cymru i rieni sy'n dychwelyd i weithio, a darparu hyfforddiant i gynghorwyr gyrfaoedd ar faterion</p>	<p><b>Derbyn mewn Egwyddor</b></p> <p>Mae Gyrfa Cymru yn darparu gwybodaeth gyrfaoedd, cyngor a chyfarwyddyd annibynnol a diduedd i bobl sy'n dychwelyd i'r gwaith drwy gyfuniad o wasanaethau digidol ac wyneb yn wyneb. Gan hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Yrfa Cymru i ofyn iddynt ystyried rhieni sy'n dychwelyd i'r gwaith yn rhan o'u gwaith o ddatblygu'r Porth Cyngor Cyflogaeth. Yn ystod 2018-19, bydd Gyrfa Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu proses Cyngor a Chyfarwyddyd i unigolion 16 oed a</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
	beichiogrwydd a mamolaeth.	<p>throsodd.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Defnyddir cyllidebau cyfredol y rhaglen i dalu unrhyw gostau ychwanegol.</p>
32	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys cymorth arbenigol i famau sy'n dychwelyd i'r gwaith yn rhaglenni'r Porth Cyngor Cyflogaeth a Cymru'n Gweithio.	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Bydd y Porth Cyngor Cyflogaeth yn rhoi canllawiau arbenigol manwl i bobl sy'n chwilio am waith, gan gynnwys y rhai sydd am ddychwelyd o absenoldeb rhieni. Fel rhan o'r broses asesu a chyfarwyddyd, bydd cynghorwyr yn cynorthwyo cwsmeriaid i ganfod trafferthion posibl a allai ei gwneud yn fwy anodd i bobl ddychwelyd i gyflogaeth. Bydd y cynghorwyr yn cynnig arweiniad ar sut i gael gafael ar gymorth, ac yn cyfeirio at ymyriadau a all ddarparu'r cymorth hwnnw. Pan fydd cwsmeriaid sy'n dychwelyd o absenoldeb rhiant yn ei chael yn anodd cael gafael ar ofal plant, bydd y Porth Cyngor Cyflogaeth yn canfod y cymorth priodol ac yn cyfeirio'r cwsmer i'r ymyriad cywir. Bydd cynghorwyr yn defnyddio'u gwybodaeth eu hunain o'r hyn sydd ar gael, yn ogystal â chyfeirlyfr manwl o ymyriadau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall yr unigolyn gael gafael ar y math cywir a'r lefel briodol o gymorth.</p> <p>Cyflwynodd cam cyntaf Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gydraddoldeb Rhywiol ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2018. Bydd camDau yn adeiladu ar waith Cam Un a oedd yn tynnu sylw at heriau allweddol yn y ffordd y gwneir penderfyniadau polisi ac edrych ar gamau ymarferol i sefydlu ffyrdd o ddatblygu cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru yn y tymor canolig a'r hirdymor, gydag amcanion clir a thargedau mesuradwy ar gyfer pob rhan o Lywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd cynllun terfynol ar gyfer datblygu cydraddoldeb rhywiol yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019. Fel rhan o gam dau, mae Grŵp Llywio wedi cael ei sefydlu i roi cyfarwyddyd a chynghor a bydd yn cwrdd ar 8 Hydref 2018 am y tro cyntaf. Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip fydd yn cadeirio'r grŵp hwn.</p> <p>Mae Cymru'n Gweithio yn rhaglen newydd sydd wedi'i chynllunio i gefnogi pobl o bob oedran i oresgyn rhwystrau ac ennill y sgiliau i gyflawni a dal gafael ar gyflogaeth gynaliadwy o safon. Bydd Cymru'n Gweithio yn canolbwyntio ar gynorthwyo pobl i gael</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
		<p>gwaith drwy fynd i'r afael â'u rhwystrau i gyflogaeth. Bydd angen i gontractwyr Cymru'n Gweithio lunio a darparu cymorth unigol hyblyg a chreadigol drwy rwydwaith o bartneriaid darparu. Bydd hyn yn golygu amrywiaeth eang o weithgareddau - y tu hwnt i hyfforddiant a datblygu sgiliau.</p> <p>Nid yw rhaglen Cymru'n Gweithio yn or-benodol, er mwyn sicrhau y caiff modelau darparu arloesol eu cyflwyno sy'n hyblyg ac wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion amrywiol unigolion. Caiff y rhaglen ei chynnal gan gyfres o ddangosyddion darpariaeth allweddol er mwyn sicrhau cysondeb a chydaddoldeb. Mae'n ofynnol i gontractwyr Cymru'n Gweithio gydgyssylltu cefnogaeth i'r cyfranogwr yn ogystal â darparu cymorth arbenigol i ddiwallu anghenion y cyfranogwr. O ran menywod sy'n dychwelyd i'r gwaith, gallai hyn olygu help i sefydlu'r cydbwysedd cywir rhwng bywyd a gwaith, magu hyder, cymorth o ran gofal plant, dysgu sgiliau newydd, archwilio ffyrdd eraill tuag at gyflogaeth (megis gwaith llawrydd, rhannu swydd, gweithio hyblyg neu hunangyflogaeth), paratoi CV a hyfforddiant ar gyfer cyfweliad.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
33	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn asesu prosiect "Returners" Llywodraeth yr Alban ac archwilio dichonoldeb rhedeg cynllun tebyg yng Nghymru.	<p><b>Gwrthod</b></p> <p>Mae Cymru'n Gweithio yn ffordd newydd o gyflwyno cymorth cyflogadwyedd a sgiliau, wedi'i gynllunio i ddiwallu'r hyn sydd ei angen ar unigolion i sicrhau cyflogaeth yn hytrach na'u gwasgu i feini prawf rhaglen gymhwysedd gul. Bydd Cymru'n Gweithio yn cefnogi cyflawni ymrwymiad <i>Ffyniant i Bawb: y strategaeth i Gymru</i>, i ail-lunio cymorth cyflogadwyedd i bob unigolyn, ac mae'n rhan bwysig o Gynllun Cyflogadwyedd y Llywodraeth a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod anghenion penodol menywod sy'n dychwelyd i'r gweithle. Bydd ein Porth Cyngor Cyflogaeth newydd yn cynnig un porth mynediad at gymorth cyflogaeth. Bydd yn galluogi unigolion i siarad â chynghorwyr hyfforddedig am gyflogaeth a sgiliau; eu hamcanion ac uchelgais ac unrhyw drafferthion y maent yn eu</p>



Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
		<p>hwynebu o ran cael gwaith, gan gynnwys adennill hyder a sgiliau y gallent fod wedi'u colli yn ystod absenoldeb o'u gyrfa pan maent wedi treulio amser i ffwrdd o'r gweithle. Darperir cyngor a chanllawiau wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein. Bydd cynghorwyr yn helpu drwy ganfod rhwystrau rhag cyflogaeth, y llwybr gorau tuag at gyflogaeth, a thrwy gyfeirio pobl i'r ymyriad(au) mwyaf priodol sydd ar gael.</p> <p>Buasem yn gwerthfawrogi'r cyfle i asesu gwerthusiad Llywodraeth yr Alban o'r prosiect "Returners" er mwyn gallu integreiddio gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau i'n Porth Cyngor Cyflogaeth a'r rhaglen Cymru'n Gweithio o 2019, yn hytrach na chynnig cynllun ar wahân yng Nghymru. Cynlluniwyd y rhaglen Cymru'n Gweithio i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion unigolyn. Byddwn yn monitro pa mor dda y mae Cymru'n Gweithio yn diwallu anghenion unigolion ac yn sicrhau y gwneir newidiadau i gynllun y rhaglen lle mae angen. Mae Cymru'n Gweithio yn broses gaffael fyw ar hyn o bryd a bydd yn dechrau darparu o fis Ebrill 2019.</p> <p>Cyflwynodd cam cyntaf Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gydraddoldeb Rhywiol ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2018. Bydd cam dau yn adeiladu ar waith dgm un a oedd yn tynnu sylw at heriau allweddol yn y ffordd y gwneir penderfyniadau polisi ac edrych ar gamau ymarferol i sefydlu ffyrdd o ddatblygu cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru yn y tymor canolig a'r hirdymor, gydag amcanion clir a thargedau mesuradwy ar gyfer pob rhan o Lywodraeth Cymru.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>
34	<p>Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynyddu'r terfyn amser ar gyfer gwneud hawliad mewn achosion o</li> </ul>	<p><b>Derbyn</b></p> <p>Byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried yr amseru mwyaf priodol er mwyn ein galluogi i ystyried, cymaint â phosibl, waith y Comisiwn Gwaith Teg, a fydd yn cyflwyno ei adroddiad yn ystod gwanwyn 2019, a chanlyniadau'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol er mwyn sicrhau bod ein barn ar faterion nad ydynt wedi datganoli yn cael ei chlywed.</p>

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
	<p>wahaniaethu ar sail mamolaeth a beichiogrwydd o 3 mis i 6 mis;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu'r hawl i ofyn am drefniadau gweithio hyblyg o ddiwrnod cyntaf swydd;</li> <li>• gwella lefel y Lwfans Mamolaeth a ddarperir i bobl hunangyflogedig yn ystod y 6 wythnos gyntaf i'w ddwyn yn unol â Thâl Mamolaeth Statudol ar gyfer pobl gyflogedig, ac ymestyn absenoldeb rhiant a rennir i dadau hunangyflogedig;</li> <li>• ymestyn trefniadau diogelu rhag colli swydd i fenywod sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth yn debyg i'r model Almaenig;</li> <li>• cynyddu lefel yr Absenoldeb Rhiant a Rennir a lleihau cymhlethdod y system; a</li> <li>• gostwng y trothwy ar gyfer adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.</li> </ul>	<p>Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y Comisiwn Gwaith Teg yn nodi y bydd yn ystyried a fyddai'n bosibl mynd â mesurau i hybu gwaith teg sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ymhellach, ac y bydd yn canfod pa gamau newydd neu ychwanegol y gellir eu cymryd, gan gynnwys deddfwriaeth newydd, a gwneud argymhellion. Fel rhan o hyn, rydym wedi gofyn i'r Comisiwn ystyried sut y gallai newidiadau i gefnogi gwaith teg helpu i hyrwyddo Cymru fwy cyfartal. Ochr yn ochr â hyn, bydd Cam Dau o'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yn ystyried y camau ymarferol o sefydlu ffyrdd o ddatblygu cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru yn y tymor canolig a'r hirdymor.</p> <p><b><u>Goblygiadau Ariannol</u></b> Dim.</p>